Cyllid & Tollau EM

**Gallech gael dirwy o hyd at £300 os na fyddwch yn rhoi gwybod am newid cyn pen 30 diwrnod, a dirwy o hyd at £3,000 os rhowch wybodaeth anghywir.**

# Adnewyddwch eich credydau treth nawr gan ddefnyddio'r camau syml isod

**Defnyddiwch y nodiadau arweiniad hyn i'ch helpu i wirio'r manylion ar eich Adolygiad Blynyddol a gwneud eich datganiad. Mae'r nodiadau hyn ar gael ar GOV.UK hefyd**

## Adnewyddwch ar-lein heddiw drwy naill ai:

- ein ap – chwiliwch am HMRC yn eich siop apiau
- www.gov.uk/rheoli-eich-credydau-treth – mewngofnodwch er mwyn cael at ystod o wasanaethau yn eich cyfrif treth personol

**Sicrhewch eich bod yn adnewyddu cyn 31 Gorffennaf, neu:**

- bydd eich taliadau'n dod i ben
- bydd yn rhaid i chi dalu arian yn ôl

Efallai y bydd angen y dogfennau canlynol arnoch i'ch helpu i wneud eich datganiad:

**P60**

**P45**

**P11D**

**Eich cyfrifon busnes**

**Peidiwch ag anfon y dogfennau hyn atom**

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.gov.uk/paye-forms-p45-p60-p11d

## Dilynwch y 3 cham hawdd hyn – ticiwch ar ôl eu cwblhau

**Cam A** ☐ Gwiriwch fod cyfnod eich dyfarniad a'r amgylchiadau personol y gwnaethom seilio'ch hawliad arnynt yn gywir.

**Cam B** ☐ Gwiriwch fod unrhyw newidiadau a wnaed i'ch hawliad yn ystod cyfnod eich dyfarniad yn gywir. Gallai'r rhain fod yn newidiadau yr ydych wedi rhoi gwybod i ni amdanynt, neu newidiadau yr ydym wedi'u gwneud. Os oes unrhyw newidiadau ar goll, neu os nad ydych wedi rhoi gwybod i ni am newid, rhowch wybod i ni nawr gan ddefnyddio ein ap neu, ewch i www.gov.uk/newidiadau-effeithio-credydau-treth

**Cam C** ☐ Gwiriwch y manylion incwm yn eich Adolygiad Blynyddol cyn llenwi'ch datganiad. Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni eich incwm am y flwyddyn gyfan, hyd yn oed os oedd eich dyfarniad ar gyfer rhan o'r flwyddyn yn unig.

## Gallwch adnewyddu'ch credydau treth nawr

**Ar-lein**
Mae'n gyflym ac yn hawdd wrth ddefnyddio ein ap – chwiliwch am HMRC yn eich siop apiau, neu ewch i www.gov.uk/rheoli-eich-credydau-treth

**Dros y ffôn**
- 0300 200 1900
- Relay UK (os na allwch glywed na siarad dros y ffôn) 18001 ac yna 0345 300 3900

**Drwy'r post**
Anfonwch y ffurflen yn ôl, heb ei phlygu, yn yr amlen a ddarparwyd.

### Ar ôl i chi wneud eich datganiad

Os byddwch yn adnewyddu ar-lein, cewch gadarnhad ar unwaith fod eich adnewyddiad wedi dod i law. Os byddwch yn adnewyddu drwy'r post neu dros y ffôn a bod gennym eich rhif ffôn symudol diweddaraf, byddwn yn anfon cadarnhad atoch drwy neges destun. Yna, byddwn yn ysgrifennu atoch cyn pen 8 wythnos i gadarnhau'ch hawl.

# Cynnwys

## Gwirio'ch amgylchiadau personol ac unrhyw newidiadau

### Amdanoch chi


Hawliadau sengl ac ar y cyd Tudalen 3
Os gwnaethoch hawlio fel person sengl Tudalen 3
Os gwnaethoch hawlio gyda rhywun arall Tudalen 3
Ble rydych yn byw Tudalen 3
Anabledd – oedolion Tudalen 4
Eich gwaith, budd-daliadau a chyflogaeth Tudalen 4

### Ynglŷn â'ch plant a phobl ifanc

Amodau cymhwyso ar gyfer pobl ifanc Tudalen 5
Addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch Tudalen 5
Hyfforddiant cymeradwy Tudalen 6
Anabledd – plant a phobl ifanc Tudalen 7
Costau gofal plant Tudalen 7
Newidiadau y mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni amdanynt os nad ydynt i'w gweld ar eich Adolygiad Blynyddol Tudalen 8
Sut i gyfrifo a yw'ch costau gofal plant wythnosol cyfartalog wedi newid Tudalen 8
Sut y mae newidiadau i'ch costau gofal plant yn effeithio ar eich taliadau Tudalen 9

### Eich incwm Tudalen 11

Adolygiad Blynyddol TC603RR





## Gwneud eich datganiad

### Nodi'ch manylion

Budd-daliadau penodol Tudalen 12
Budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy Tudalen 12
Manylion incwm Tudalen 13
Enillion fel cyflogai o bob swydd Tudalen 13
Didyniadau Tudalen 13
Car cwmni a thanwydd, talebau trethadwy a buddiannau o bob swydd Tudalen 13
Incwm o hunangyflogaeth Tudalen 14
Cyfanswm incwm arall Tudalen 14
Taflenni gwaith i'ch helpu i gyfrifo'ch incwm Tudalen 16
Sut i wneud eich datganiad ac adnewyddu'ch credydau treth Tudalen 21

TC603D



# Gwirio'ch amgylchiadau personol ac unrhyw newidiadau

## Amdanoch chi

### Hawliadau sengl ac ar y cyd

Mae'ch Adolygiad Blynyddol yn dangos a wnaethoch hawlio fel person sengl, neu ar y cyd fel pâr, ar ddechrau cyfnod eich dyfarniad.

### Os gwnaethoch hawlio fel person sengl

**Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi gwybod i ni os, yn ystod cyfnod eich dyfarniad:**

- gwnaethoch ddechrau byw gyda rhywun fel pâr
- gwnaethoch briodi neu ffurfio partneriaeth sifil

Un o'r rhesymau mwyaf cyffredin dros orfod talu arian yn ôl yw'r ffaith na wnaeth unigolyn roi gwybod i ni ei fod yn byw gyda rhywun. Os nad ydych yn siŵr a fyddech yn cael eich ystyried yn rhan o bâr, ewch i www.gov.uk/claim-tax-credits/joint-claims neu ffoniwch ein llinell gymorth am gyngor.

### Os gwnaethoch hawlio gyda rhywun arall

Os gwnaethoch hawlio fel pâr, dangoswn y ddau enw ac mae'r ddau ohonoch yn gyfrifol am sicrhau bod eich manylion yn gywir.

Dylech fod wedi hawlio ar y cyd:

- os oeddech yn briod neu mewn partneriaeth sifil – oni bai y gwnaethoch wahanu o dan orchymyn llys, neu yr oeddech yn disgwyl gwahanu'n barhaol
- os oeddech yn byw gyda rhywun fel pe baech yn briod neu mewn partneriaeth sifil, er enghraifft:
  - os oeddech yn byw ar yr un aelwyd weithiau
  - os oeddech yn rhannu costau ac roedd gennych drefniadau ariannol ar y cyd
  - os oedd gennych blant a oedd yn ddibynnol arnoch, ac roeddech yn gofalu amdanynt ar y cyd ar eich aelwyd

**Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi gwybod i ni os, yn ystod cyfnod eich dyfarniad:**

- gwnaethoch wahanu'n barhaol oddi wrth eich partner
- gwnaeth eich partner farw

### Ble rydych yn byw

Mae'ch Adolygiad Blynyddol yn dangos y wlad y buoch yn byw ynddi'r rhan fwyaf o'r amser yn ystod cyfnod y dyfarniad. Os oedd eich prif gartref yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon (ond nid Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw), rydym yn dangos eich bod yn byw yn y DU.

**Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi gwybod i ni os ydych chi neu'ch partner:**

- wedi gadael y DU yn barhaol
- wedi mynd dramor am fwy nag 8 wythnos (neu fwy na 12 wythnos os aethoch dramor oherwydd eich bod yn sâl, neu oherwydd bod aelod o'ch teulu'n yn sâl neu wedi marw)
- wedi colli'ch hawl i breswylio yn y DU

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwilio am WTC/FS6.

## Anabledd – oedolion

Os oedd gennych anabledd, a chawsoch elfen anabledd neu elfen anabledd difrifol y Credyd Treth Gwaith, fe'i dangosir ar eich Adolygiad Blynyddol.

I gael elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith, mae'n rhaid eich bod wedi bodloni pob un o'r 3 amod cymhwyso.

Amod 1 – roeddech fel arfer yn gweithio 16 awr neu fwy bob wythnos.
Amod 2 – roedd gennych anabledd a oedd yn eich rhoi dan anfantais wrth geisio am swydd.
Amod 3 – roeddech yn cael, neu wedi cael, budd-dal cymwys yn ymwneud â salwch neu anabledd.

Gallwch gael yr elfen anabledd difrifol os ydych chi neu'ch partner yn cael:

- elfen gofal cyfradd uchaf o'r Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) neu'r Taliad Anabledd Plant (CDP)
- yr elfen bywyd bob dydd ychwanegol o'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) neu Daliad Anabledd Oedolion (ADP) yn yr Alban
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog
- Lwfans Gweini/Taliad Anabledd Oedran Pensiwn (PADP) (y gyfradd uwch)

Does dim rhaid i chi fod yn gweithio i fod yn gymwys ar gyfer yr elfen anabledd difrifol, cyn belled â bod eich partner yn gweithio.

**Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi gwybod i ni:**

- os nad ydych bellach yn gymwys i gael yr elfen anabledd neu'r elfen anabledd difrifol
- cyn pen mis i gael dyfarniad budd-dal anabledd yn dilyn adolygiad neu apêl – mae'n bosibl y byddwch yn gymwys ar gyfer yr elfen anabledd hyd yn oed os yw'ch dyfarniad credydau treth wedi dod i ben

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwilio am TC956.

## Eich gwaith, budd-daliadau a chyflogaeth

Mae'ch Adolygiad Blynyddol yn dangos y wlad y buoch yn gweithio ynddi'r rhan fwyaf o'r amser, a chyfanswm yr oriau yr oeddech fel arfer yn eu gweithio bob wythnos am dâl. Bydd hefyd yn dangos a gawsoch y canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm
- Credyd Pensiwn

**Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi gwybod i ni os ydych chi neu'ch partner:**

- wedi cael Credyd Treth Gwaith, ac wedi cael absenoldeb mamolaeth a barhaodd am fwy na 39 wythnos
- wedi rhoi'r gorau i weithio neu wedi colli'ch gwaith
- wedi newid eich oriau gwaith arferol fel bod y naill neu'r llall ohonoch wedi gweithio llai nag:
  - 16 awr yr wythnos
  - 24 awr yr wythnos
  - 30 awr yr wythnos

  (ar gyfer parau sydd â phlant, rhaid i un ohonoch weithio o leiaf 16 awr – mae angen i chi adio'ch oriau gwaith at ei gilydd er mwyn i chi allu penderfynu a ydych yn gweithio llai na 24 neu 30 awr)
- wedi cael elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith, ac wedi dechrau gweithio llai nag 16 awr yr wythnos
- wedi cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol am fwy na 10 diwrnod yn olynol
- heb ddychwelyd i'r gwaith ar ôl:
  - absenoldeb tadolaeth
  - absenoldeb mabwysiadu / absenoldeb mabwysiadu ychwanegol
  - absenoldeb ar y cyd i rieni
  - salwch neu gyfnod o analluogrwydd ar gyfer gwaith
  - cyfnodau streic
  - cael eich atal dros dro yn ystod ymchwiliad
- wedi dechrau neu stopio cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm neu Gredyd Pensiwn

- wedi bod yn hunangyflogedig neu wedi dechrau bod yn hunangyflogedig yn ddiweddar, neu'n cael incwm o hunangyflogaeth – i gael rhagor o wybodaeth am hyn, ewch i www.gov.uk/working-tax-credit/eligibility
- wedi stopio bod yn analluog i weithio, yn glaf mewn ysbyty, yn y carchar neu yn y ddalfa'n aros am dreial neu ddedfryd
- yn gymwys ar gyfer Lwfans Gofalwr neu'r Taliad Cymorth Gofalwr

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwilio am WTC2.

## Ynglŷn â'ch plant a'ch pobl ifanc

Ni allwch gael elfen plentyn y Credyd Treth Plant mwyach ar gyfer trydydd plentyn neu blentyn a gafodd ei eni ar ôl 6 Ebrill 2017, oni bai bod un o'r eithriadau'n gymwys - i gael rhagor o wybodaeth ewch i www.gov.uk/guidance/child-tax-credit-exceptions-to-the-2-child-limit.cy

Bydd elfen anabledd y Credyd Treth Plant ac elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith yn cael eu talu ar gyfer pob plentyn cymwys, hyd yn oed os na fyddwn yn talu'r elfen plentyn unigol ar gyfer y plentyn hwnnw.

Rhowch wybod am enedigaeth plentyn bob tro ac unrhyw newidiadau yn ymwneud â'ch plant neu'ch pobl ifanc oherwydd mae'n bosibl y gallwch gael mwy o arian.

Mae'ch Adolygiad Blynyddol yn dangos:
- unrhyw blant yr oeddech yn gyfrifol amdanynt hyd at eu pen-blwydd yn 16 oed
- unrhyw bobl ifanc yr oeddech yn gyfrifol amdanynt rhwng 16 ac 20 oed, a oedd yn bodloni'r amodau isod

### Amodau cymhwyso ar gyfer pobl ifanc

Rhaid i'r person ifanc fod wedi cael ei ymrestru, ei dderbyn, neu wedi dechrau addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch, neu hyfforddiant cymeradwy, cyn iddo droi'n 19 oed.

### Addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch

Rydym yn trin person ifanc fel un sydd mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch os oedd:
- yn yr ysgol neu'r coleg (nid y brifysgol) yn astudio pynciau hyd at, a chan gynnwys, Safon Uwch, NVQ lefel 3, Scottish Highers neu Scottish Advanced Highers (nid tystysgrif genedlaethol uwch na gradd), ac yn mynychu gwersi am fwy na 12 awr yr wythnos yn ystod y tymor ar gyfartaledd
- ar Raglen Astudio (yn Lloegr yn unig)

Mae person ifanc yn dal i gael ei ystyried yn un sydd mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch:
- os tarfwyd ar ei addysg am gyfnod o hyd at 6 mis, os oedd yn rhesymol – er enghraifft, oherwydd salwch neu symud tŷ
- os cafodd gyfnod o salwch neu anabledd, ac roedd bob amser yn bwriadu dychwelyd i astudio'n syth ar ôl i'r cyfnod o darfu ddod i ben
- os oedd newydd orffen cwrs ac wedi'i gofrestru i ddechrau cwrs arall y tymor nesaf

Ni all cyflogwr ddarparu'r addysg. Os nad ydych yn siŵr a oedd person ifanc mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch, ewch i www.gov.uk/child-tax-credit-when-child-reaches-16 neu ffoniwch ein llinell gymorth.

## Hyfforddiant cymeradwy

Rydym yn ystyried y cynlluniau canlynol yn y DU yn hyfforddiant cymeradwy:

- Cymru – Prentisiaethau Sylfaenol, Hyfforddeiaethau neu'r cynllun Twf Swyddi Cymru Plws
- Yr Alban – No One Left Behind
- Gogledd Iwerddon – Training for Success neu Skills for Life and Work
- Lloegr – gweler addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch uchod

Os yw'r person ifanc cymwys yn 16 neu'n 17 oed, ac mae wedi gadael addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy, efallai y gallwch gael Credyd Treth Plant ar ei gyfer am hyd at 20 wythnos ar ôl iddo adael. Er mwyn bod yn gymwys i gael yr wythnosau ychwanegol hyn, mae angen iddo fod wedi cofrestru gydag un o'r canlynol:

- gwasanaeth gyrfaoedd, Connexions, gwasanaeth cymorth awdurdod lleol neu sefydliad tebyg (yng Ngogledd Iwerddon, yr Adran Cymunedau neu'r Awdurdod Addysg)
- y Weinyddiaeth Amddiffyn, os yw'n aros i ymuno â'r Lluoedd Arfog
- unrhyw gorff cyfatebol yn un o aelod-wladwriaethau'r AEE neu yn y Swistir

I gael yr wythnosau ychwanegol hyn, rhaid i chi hawlio cyn pen 3 mis o'ch plentyn yn gadael addysg neu hyfforddiant.

**Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi gwybod i ni os:**

- gwnaeth nifer y plant neu bobl ifanc yr oeddech yn gyfrifol amdanynt newid, er enghraifft:
  - ymunodd plentyn neu berson ifanc â'ch teulu neu cafodd ei osod gyda'ch teulu i gael ei fabwysiadu, neu ganed baban
  - gadawodd plentyn neu berson ifanc eich teulu, er enghraifft, fe'i cymerwyd i ofal, cafodd ei faethu neu ei fabwysiadu gan deulu arall, neu cafodd ei gadw yn y ddalfa am fwy na 4 mis ar ôl ei gael yn euog gan lys a'i ddedfrydu, neu bu farw
- bu unrhyw newidiadau a effeithiodd ar berson ifanc cymwys, er enghraifft:
  - gwnaeth person ifanc, y cawsoch Gredyd Treth Plant ar ei gyfer, adael addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy cyn iddo gyrraedd 20 oed, neu rhoddodd y gorau i fod yn gofrestredig â gwasanaeth gyrfaoedd, gwasanaeth Connexions, neu wasanaeth cyfatebol
  - roedd y person ifanc cymwys yn disgwyl parhau mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy ar ôl 31 Awst yn dilyn y dyddiad gwnaeth droi'n 16 oed, ond ni wnaeth hynny yn y pen draw
  - gwnaeth y person ifanc ddychwelyd i addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy, a gwnaeth naill ai ddechrau, ymrestru ar gyfer, neu gael ei dderbyn ar gwrs cyn iddo droi'n 19 oed
- gwnaeth person ifanc cymwys ddechrau mewn cyflogaeth â thâl, neu cafodd fudd-daliadau, er enghraifft:
  - dechreuodd gael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Gredyd Cynhwysol yn ei enw ei hun
  - dechreuodd gael ei hyfforddiant o dan gytundeb cyflogaeth
  - cofrestrodd gyda gwasanaeth gyrfaoedd cymwys ar ôl gadael addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy, ac roedd mewn gwaith â thâl am 24 awr yr wythnos neu fwy

Mae'r elfen plentyn ar gyfer person ifanc 16, 18 neu 19 oed yn dod i ben yn awtomatig bob blwyddyn, oni bai eich bod wedi rhoi gwybod i ni ei fod yn parhau mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy.

## Anabledd – plant a phobl ifanc

Mae'n bosibl eich bod wedi cael Credyd Treth Plant ychwanegol am fod gan eich plentyn anabledd. Gelwir y swm ychwanegol hwn yn elfen anabledd plant. Efallai yr oedd gennych yr hawl i hyn (hyd yn oed os na chawsoch yr elfen plentyn ar gyfer y plentyn hwnnw):

- os cawsoch Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) neu Daliad Anabledd Plant (CDP) yn yr Alban ar gyfer eich plentyn
- os cawsoch Daliad Annibyniaeth Personol (PIP) neu Daliad Anabledd Oedolion (ADP) yn yr Alban ar gyfer eich plentyn
- os oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi'i ardystio fel unigolyn â nam difrifol ar ei olwg, neu'n ddall, gan offthalmolegydd ymgynghorol, neu wedi peidio â chael ei ardystio mwyach fel unigolyn â nam difrifol ar ei olwg, neu'n ddall, gan offthalmolegydd ymgynghorol, yn y 28 wythnos cyn dyddiad eich hawliad neu adnewyddiad

Efallai y byddech wedi bod â hawl i hyn (hyd yn oed os na chawsoch yr elfen plentyn ar gyfer y plentyn hwnnw), os cawsoch:

- elfen gofal cyfradd uwch y Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Anabledd Plant ar gyfer eich plentyn
- elfen bywyd bob dydd ychwanegol y Taliad Annibyniaeth Personol neu Daliad Anabledd Oedolion ar gyfer eich plentyn
- Taliad Annibynnol y Lluoedd Arfog ar gyfer eich plentyn hyd yn oed os na chawsoch elfen plentyn y Credyd Treth Plant ar gyfer y plentyn hwnnw

**Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi gwybod i ni os gwnaethoch ddechrau neu stopio cael:**

- Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) neu Daliad Anabledd Plant (CDP) yn yr Alban neu elfen gofal cyfradd uwch y Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer eich plentyn
- Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) neu Daliad Anabledd Oedolion (ADP) yn yr Alban neu elfen bywyd bob dydd ychwanegol y Taliad Annibyniaeth Personol/Taliad Anabledd Oedolion ar gyfer eich plentyn
- Taliad Annibynnol y Lluoedd Arfog ar gyfer eich plentyn

O ran y plentyn neu'r person ifanc (hyd yn oed os na chawsoch yr elfen plentyn ar gyfer y plentyn hwnnw), dylech hefyd fod wedi dweud wrthym:

- os cafodd y plentyn neu'r person ifanc ei ardystio'n unigolyn â nam difrifol ar ei olwg, neu'n ddall, gan offthalmolegydd ymgynghorol, yn y 28 wythnos cyn dyddiad eich hawliad neu'ch adnewyddiad
- os nad oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi'i ardystio mwyach yn unigolyn â nam difrifol ar ei olwg, neu'n ddall, gan offthalmolegydd ymgynghorol
- os cafodd y plentyn neu'r person ifanc fudd-dal anabledd yn dilyn adolygiad neu apêl – rhowch wybod i ni cyn pen mis i ddyddiad y penderfyniad gan ei bod yn bosibl eich bod yn gymwys ar gyfer elfen anabledd y Credyd Treth Plant – efallai y bydd gennych hawl hyd yn oed os yw'ch dyfarniad credydau treth wedi dod i ben

I gael rhagor o wybodaeth ewch i GOV.UK a chwilio am WTC2.

## Costau gofal plant

Mae'ch Adolygiad Blynyddol yn dangos y costau gofal plant wythnosol cyfartalog yr oeddech yn eu talu ar ddechrau cyfnod eich dyfarniad. Mae hefyd yn dangos unrhyw newidiadau o ran gofal plant y gwnaethoch roi gwybod i ni amdanynt, neu unrhyw newidiadau a wnaed gennym ni. Mae angen i chi wirio a yw'r costau gofal plant a ddangosir yn gywir, a rhoi gwybod i ni os nad ydynt.

## Newidiadau y mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni amdanynt nawr os nad ydynt i'w gweld yn eich Adolygiad Blynyddol

**Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni nawr os:**

- gwnaethoch stopio bod yn gyfrifol am y plentyn yr ydych yn hawlio gofal plant amdano
- gwnaethoch chi neu'ch partner roi'r gorau i weithio
- gostyngodd eich oriau gwaith arferol, neu rai eich partner, yn is nag 16 awr yr wythnos
- gwnaethoch chi neu'ch partner stopio â
  - bod yn glaf mewnol yn yr ysbyty
  - bod yn y carchar yn bwrw dedfryd o garchar, neu fod ar remánd yn y ddalfa'n aros am dreial neu ddedfryd
  - cael budd-dal anabledd
  - bod â hawl i Lwfans Gofalwr neu'r Taliad Cymorth Gofalwr
- gwnaeth eich darparwr gofal plant stopio â bod yn gofrestredig neu'n gymeradwy
- gwnaethoch roi'r gorau i ddefnyddio darparwr gofal cofrestredig neu gymeradwy
- newidiodd eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog gan ostwng £10 neu fwy neu daethant i ben
- gwnaethoch ddechrau cael help arall tuag at eich costau gofal plant
- gwnaeth eich plentyn roi'r gorau i fynychu gofal plant am fwy na 4 wythnos pan fyddai wedi gwneud hynny fel arfer

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwilio am WTC5.

## Sut i gyfrifo a yw'ch costau gofal plant wythnosol cyfartalog wedi newid

**Gall eich costau gofal plant gynyddu neu ostwng**

Bydd y modd yr ydych yn cyfrifo newidiadau yn eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog yn dibynnu ar sut y gwnaethoch gyfrifo'ch costau gofal plant wythnosol cyfartalog yn y lle cyntaf.

**Os ydych yn talu'r un swm bob tro**

I gyfrifo'ch costau wythnosol cyfartalog newydd, ewch i GOV.UK a chwilio am WTC5, a darllenwch dudalen 12.

**Rydych yn talu'n wythnosol**

Os yw'ch costau wythnosol cyfartalog newydd o leiaf £10 yn llai neu'n fwy bob wythnos, am 4 wythnos yn olynol, nag o'r blaen, mae angen i chi roi gwybod i ni.

**Rydych yn talu'n fisol neu ar unrhyw amlder arall**

Cymharwch eich costau wythnosol cyfartalog newydd â'r hen gyfartaledd a roesoch i ni. Os oes gwahaniaeth o £10 neu fwy yr wythnos, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni.

**Nid ydych yn talu'r un swm bob tro**

I gyfrifo'ch costau wythnosol cyfartalog newydd:

1. Ychwanegwch at ei gilydd yr hyn a ddisgwyliwch ei dalu yn gyfan gwbl dros y 52 wythnos nesaf (neu'r 12 mis nesaf os ydych yn talu'n fisol neu ar unrhyw amlder arall).
2. Rhannwch y cyfanswm â 52 – dyma'ch costau gofal plant wythnosol cyfartalog newydd.
3. Cymharwch eich costau wythnosol cyfartalog newydd â'r hen gyfartaledd a roesoch i ni. Os oes gwahaniaeth o £10 neu fwy yr wythnos, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni.

**Rydych yn talu am ofal plant ar gyfer mwy nag un plentyn neu i fwy nag un darparwr**
Y newid yn y cyfanswm a dalwch bob wythnos yw'r hyn sydd o ddiddordeb i ni:

1. Ychwanegwch at ei gilydd yr holl gostau gofal plant wythnosol cyfartalog a dalwch ar gyfer eich plant – dyma'ch costau gofal plant wythnosol cyfartalog newydd.
2. Cymharwch eich costau wythnosol cyfartalog newydd â'r hen gyfartaledd a roesoch i ni. Os oes gwahaniaeth o £10 neu fwy yr wythnos, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni.

## Sut mae newidiadau i gostau gofal plant yn effeithio ar eich taliadau

Os yw'ch costau gofal plant wythnosol cyfartalog newydd o leiaf £10 yn is na'r hen gyfartaledd a roesoch i ni, ni fydd y cymorth ar gyfer eich gofal plant yn gostwng yn ystod yr wythnos y digwyddodd y newid na'r 3 wythnos ddilynol.

**Er enghraifft – disgynnodd costau gofal plant £10 yr wythnos neu fwy**
Roedd costau gofal plant Ahmed yn amrywio, oherwydd ei fod yn talu mwy yn ystod gwyliau'r ysgol. Ei gostau wythnosol cyfartalog yw £65. Ar 2 Hydref, dechreuodd Ahmed weithio oriau byrrach ac roedd angen i'w warchodwr plant ofalu am ei blant am lai o oriau bob wythnos.

Yn ystod y 52 wythnos nesaf, mae Ahmed bellach yn talu:

| | |
|---|---|
| 10 wythnos o wyliau ysgol am £80 yr wythnos | 10 x £80 = £800 |
| 39 wythnos yn ystod tymor yr ysgol am £40 yr wythnos | 39 x £40 = £1,560 |
| 3 wythnos o wyliau haf gyda rhieni cu | £0 |
| Cyfanswm ar gyfer 52 wythnos | £2,360 |

I gyfrifo'r cyfartaledd wythnosol newydd, rhennir y cyfanswm â 52 (nifer yr wythnosau mewn blwyddyn).

Felly, y costau wythnosol cyfartalog newydd yw £2,360 ÷ 52 = £45.38 (talgrynnwch i fyny i £46)

Mae hyn yn fwy na £10 yn is na'i hen gyfartaledd o £65 yr wythnos. Dylai Ahmed fod wedi rhoi gwybod i ni am y newid hwn cyn pen un mis ohono'n digwydd.

Mae'n rhaid i Ahmed roi gwybod i ni nawr am y newid diwethaf hwn o ran gofal plant er mwyn i'r datganiad yn yr adolygiad blynyddol fod yn gywir ar gyfer cyfnod y dyfarniad. Dim ond y costau ar gyfer yr wythnosau y mae wedi talu amdanynt y mae Ahmed wedi eu cynnwys.

Ni fydd y cymorth ar gyfer eich gofal plant yn gostwng yn yr wythnos y digwyddodd y newid na'r 3 wythnos ddilynol.

## Mae'ch costau gofal plant wythnosol cyfartalog yn cynyddu £10 neu fwy

Os ydych yn talu'r un swm bob wythnos, dyma pryd mae'ch costau newydd o leiaf £10 yn uwch na'ch hen gostau am 4 wythnos yn olynol.

Os ydych yn talu swm gwahanol bob wythnos neu os nad ydych yn talu'n wythnosol, dyma pryd mae'ch costau gofal plant wythnosol cyfartalog newydd o leiaf £10 yn uwch na'ch hen gostau wythnosol cyfartalog.

Dylai'r cymorth ar gyfer eich gofal plant fod wedi cynyddu o wythnos gyntaf y newid. Os na roesoch wybod i ni am eich costau gofal plant yn cynyddu mewn pryd, ni fyddwch yn cael cymaint o gredydau treth ag y dylech fod wedi'u cael.

Gallwn ond ôl-ddyddio'r cynnydd yn eich costau gofal plant am un mis o'r dyddiad y byddwch yn rhoi gwybod i ni amdano.

## Enghreifftiau o adegau pan gynyddodd costau gofal plant £10 yr wythnos neu fwy

**Enghraifft 1**
Mae Shahida fel arfer yn talu £300 y mis am ofal plant cymeradwy. Mae ei chostau wythnosol cyfartalog, sef £70 yr wythnos, wedi'u cyfrifo fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Lluoswch y swm misol â 12 | £300 x 12 = £3,600 |
| Rhannwch â 52 | £3,600 ÷ 52 = £69.23 |
| Talgrynnwch i fyny i | £70.00 |

Ar 2 Gorffennaf, dechreuodd plant Shahida fynd at warchodwr plant newydd sy'n codi £350 y mis. Roedd angen iddi gyfrifo'i chostau wythnosol cyfartalog newydd fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Lluoswch y swm misol â 12 | £350 x 12 = £4,200 |
| Rhannwch â 52 | £4,200 ÷ 52 = £80.77 |
| Talgrynnwch i fyny i | £81.00 |

Mae hynny'n gynnydd o £10 yr wythnos neu fwy ar gyfartaledd. Dylai Shahida roi gwybod i ni ar unwaith a chyn pen mis er mwyn sicrhau nad yw ar ei cholled wrth hawlio credydau treth.

**Enghraifft 2**
Costau gofal plant wythnosol cyfartalog Garmon yw £50. Yna gostyngodd ei gostau am 6 wythnos i £45 yr wythnos. Anwybyddodd hyn gan fod y newid yn llai na £10 yr wythnos ar gyfartaledd.

Ar ôl y 6 wythnos hynny, dechreuodd dalu £70 yr wythnos ac roedd yn disgwyl mai'r swm hwnnw fyddai'r taliad o hynny ymlaen. Mae hynny'n gynnydd o £10 yr wythnos neu fwy ar gyfartaledd. Dylai fod wedi rhoi gwybod i ni ar unwaith, gan yr oedd ganddo hawl i ragor o gymorth gyda'i ofal plant.

## Os oedd y newid yn eich costau gofal plant yn llai na £10 yr wythnos ar gyfartaledd

Nid yw hwn yn newid perthnasol o ran gofal plant, ac nid oes yn rhaid i chi roi gwybod i ni amdano.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i GOV.UK a chwilio am WTC5.

**Enghraifft – newid amherthnasol nad oes yn rhaid i chi roi gwybod i ni amdano**
Roedd costau gofal plant wythnosol cyfartalog Jane yn £50 oherwydd ei bod bob amser yn talu'r swm wythnosol sefydlog hwnnw.

Am bythefnos, roedd angen i'w gwarchodwr plant ofalu am ei phlentyn am fwy o oriau, ac fe'i talodd £20 yr wythnos yn ychwanegol. Aeth pethau'n ôl i'r arfer, ac roedd Jane yn talu £50 yr wythnos i'w gwarchodwr plant unwaith eto.

Nid oedd angen i Jane roi gwybod i ni am hyn – ni pharodd y cynnydd o £10 neu fwy yr wythnos yn y costau gofal plant am 4 wythnos yn olynol, roedd yn gymwys i 2 o'r wythnosau yn unig.

## Eich incwm

Gall eich Adolygiad Blynyddol ddangos incwm y mae'ch cyflogwyr neu'ch darparwyr pensiwn galwedigaethol wedi'i roi i Gyllid a Thollau EF. Y ffigur ar eich Adolygiad Blynyddol fydd cyfanswm yr incwm a roesant ar gyfer y cyfnod hwn. Os oes gennych fwy nag cyflogwr neu ddarparwr pensiwn galwedigaethol, caiff cyfanswm yr incwm o bob un ohonynt ei ddangos. Os ydych yn hawlio fel pâr, a bod y ddau ohonoch yn gweithio, caiff eich incymau unigol eu dangos ar wahân.

Er ein bod wedi cael gwybod am yr incwm hwn, dangosir hwn fel canllaw yn unig. Rydym yn dal i ofyn i chi gyfrifo'ch manylion incwm ar y cyd, a rhoi gwybod i ni amdanynt, ar gyfer cyfnod y dyfarniad ar eich Adolygiad Blynyddol.

Yn ogystal ag enillion drwy gyflogaeth, efallai bod gennych incwm arall, fel incwm hunangyflogedig, buddiannau trethadwy neu fuddiannau eraill. Mae'n bosibl hefyd y bydd didyniadau y gallech eu gwneud i'ch incwm wrth gyfrifo'ch ffigurau ar gyfer credydau treth.

Defnyddiwch y taflenni gwaith ar dudalennau 16 i 20 i'ch helpu i gyfrifo cyfanswm eich incwm (ar y cyd) ar gyfer blwyddyn dreth 2023 i 2024.

Os oes angen rhagor o help arnoch i gyfrifo cyfanswm eich incwm, ewch i www.gov.uk/tax-credits-working-out-income, neu ffoniwch ein llinell gymorth.

Mae incwm y mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni amdano'n cynnwys:

- enillion o gyflogaeth – cyfanswm yr incwm a enillwyd gennych chi a'ch partner
- pensiynau galwedigaethol – cyfanswm unrhyw bensiynau rydych chi a'ch partner yn eu cael o gyflogaeth flaenorol neu bresennol
- rhai buddiannau – cyfanswm eich buddiannau chi a'ch partner o gyflogaeth
- elw o hunangyflogaeth – cyfanswm eich incwm chi a'ch partner
- rhai budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy – cyfanswm eich budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy chi a'ch partner
  - peidiwch â chynnwys Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm
  - peidiwch â chynnwys yr Atodiad i Lwfans Gofalwr os ydych yn byw yn yr Alban
- unrhyw incwm arall – cyfanswm eich incwm arall chi ac incwm arall eich partner

Efallai y gallech wneud didyniadau o gyfanswm eich incwm.

Ar gyfer rhestr o ddidyniadau y gallwch eu gwneud, ewch i www.gov.uk/tax-credits-working-out-income

Defnyddiwch y taflenni gwaith ar dudalennau 16 i 20 i'ch helpu i gyfrifo'ch incwm a'ch didyniadau.

Os ydych yn dal i gael credydau treth, mae angen i chi sicrhau eich bod yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau wrth iddynt ddigwydd er mwyn i ni allu sicrhau eich bod yn dal i gael y swm cywir o gredydau treth.

# Gwneud eich datganiad

## Sut i wneud eich datganiad

Gwiriwch yn ofalus fod yr holl fanylion a ddangosir ar eich Adolygiad Blynyddol yn gywir a chyflawn. Defnyddiwch y nodiadau hyn i'ch helpu i wirio'ch manylion a gwneud eich datganiad.

> Os oes unrhyw fanylion yn anghywir, bydd angen i chi roi gwybod i ni nawr. Mae'n bwysig eich bod yn gwneud hyn nawr, er mwyn i ni allu sicrhau eich bod yn cael y swm cywir o arian.

Mae rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau ac adnewyddu'ch credydau treth ar-lein yn gyflym ac yn hawdd wrth ddefnyddio ein ap. Chwiliwch am HMRC yn eich siop apiau, neu ewch i www.gov.uk/rheoli-eich-credydau-treth

Os na allwch adnewyddu ar-lein, gallwch bostio'ch adnewyddiad atom neu ein ffonio. Mae manylion cyswllt ar gefn y nodiadau hyn.

Gallai'r nodiadau canlynol a'r taflenni gwaith ar dudalennau 16 i 20 eich helpu i adnewyddu ar-lein neu i gwblhau'ch datganiad dros y ffôn.

Os ydych yn gwneud eich datganiad ar ffurflen TC603D, ac yn ei dychwelyd drwy'r post, mae'n rhaid i chi a'ch partner:

- sicrhau eich bod yn llenwi'r colofnau cywir
- gwirio bod yr wybodaeth a rowch yn gywir
- llofnodi a dyddio'r datganiad ar dudalen 3

Mae'n bwysig cael hyn yn iawn am fod y ddau ohonoch yn gyfrifol am yr holl wybodaeth ar y ffurflen hon. Os ydych yn gweithredu fel penodai ar gyfer pâr, unwaith yn unig y bydd angen i chi lofnodi'r datganiad.

## Nodi'ch manylion

Mae'r cyfeiriadau canlynol at 'Rhan' a 'Blwch' yn ymwneud â'r adrannau ar y TC603D os ydych yn gwneud eich datganiad drwy'r post.

## Rhan 1 – Budd-daliadau penodol

### Blwch 1.1 ar eich datganiad

Dim ond os cawsoch un o'r budd-daliadau sydd wedi'u rhestru ar gyfer cyfnod cyfan y dyfarniad y dylech roi 'X' yn y blwch.

Peidiwch â rhoi 'X' os gwnaethoch y canlynol ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y dyfarniad:

- dechrau gweithio a chael 'taliad parhad' ar gyfer un o'r budd-daliadau sydd wedi'u rhestru
- cael Lwfans Ceisio Gwaith ar sail cyfraniadau neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau yn unig

## Rhan 2 – Budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy

### Blwch 2.1 ar eich datganiad

Os ydych wedi cael unrhyw un o'r budd-daliadau trethadwy a restrir isod, mae angen i chi ychwanegu'r symiau a gawsoch at ei gilydd a nodi'r cyfanswm ym mlwch 2.1.

Mae'r budd-daliadau hyn fel a ganlyn:

- Lwfans Profedigaeth
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau
- Lwfans Gofalwr neu'r Taliad Cymorth Gofalwr (os ydych yn yr Alban, peidiwch â chynnwys yr Atodiad i Lwfans Gofalwr)
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail cyfraniadau
- Budd-dal Analluogrwydd (ond peidiwch â chynnwys hwn os gwnaethoch ddechrau ei hawlio cyn 1995)

Peidiwch â chynnwys unrhyw gredydau treth, Budd-dal Plant, Credydau Pensiwn, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (a elwir weithiau yn Gymorth y Dreth Gyngor), Rhyddhad Ardrethi Budd-dal Tai (yng Ngogledd Iwerddon), Credyd Cynhwysol, Budd-dal Tai, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm na Chymhorthdal Incwm nad yw'n drethadwy.

# Rhan 2 – Manylion incwm

## Blwch 2.2 ar eich datganiad – Enillion fel cyflogai o bob swydd

Nodwch gyfanswm eich incwm gros o bob swydd yn ystod cyfnod y dyfarniad. Gallwch edrych ar eich ffurflenni P45, P60 neu slipiau cyflog oddi wrth eich cyflogwr i weld faint y gwnaethoch ei ennill y flwyddyn ddiwethaf. Os yw buddiannau wedi'u cynnwys yn yr incwm a enillwyd gennych, gweler blwch 2.3.

### Didyniadau

Efallai nad yw'ch cyflogwr wedi rhoi gwybod i ni am y didyniadau sy'n cael eu prosesu drwy'ch cyflogres.

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- cyfraniadau pensiwn rydych yn eu gwneud i gynllun cofrestredig a delir o'ch incwm net, gan gynnwys unrhyw ryddhad treth sy'n ddyledus – peidiwch â didynnu cyfraniadau a delir o'ch incwm gros
- y swm gwirioneddol a delir, hyd at £100 am bob taliad wythnosol o Dâl Mamolaeth Statudol, Tâl Tadolaeth Statudol, Tâl Statudol ar y Cyd i Rieni, Tâl Statudol Rhieni mewn Profedigaeth a Thâl Mabwysiadu Statudol
- treuliau gwaith nad ydynt wedi'u had-dalu i chi gan eich cyflogwr

Dim ond taliadau gwirioneddol yr ydych wedi'u gwneud neu'u cael ar gyfer cyfnod y dyfarniad ar eich Adolygiad o Ddyfarniad y gallwch eu didynnu.

Cyfrifwch unrhyw ddidyniadau y gallwch eu gwneud cyn nodi ffigur incwm ym mlwch 2.2.

**Gallwch ddefnyddio Taflen Waith Incwm 1 ar dudalennau 16 ac 17 i'ch helpu.**

## Blwch 2.3 ar eich datganiad – Car cwmni a thanwydd, talebau trethadwy a buddiannau o bob swydd

Mae'n bosibl y bydd eich cyflogwr yn rhoi manylion blynyddol y buddiannau a gewch ar ffurflen P11D.

### Buddiannau a delir drwy'r gyflogres

Mae'n bosibl y bydd Cam B o'ch Adolygiad Blynyddol yn dangos buddiannau a delir drwy'r gyflogres, a gawsoch yn ystod y flwyddyn. Gall eich cyflogwr fod wedi cynnwys y buddiannau hyn yn y ffigur ar gyfer incwm a enillwyd ar eich P60 neu slipiau cyflog. Os felly:

- didynnwch swm yr holl fuddiannau a dalwyd drwy'r gyflogres o'r ffigur cyfanswm y cyflog a ddangosir ar eich P60 neu'ch slipiau cyflog
- nodwch y ffigur sy'n weddill ar gyfer incwm a enillwyd ar frig Taflen Waith 1, a dilynwch y camau i gyfrifo'r ffigur incwm i'w nodi ym mlwch 2.2
- defnyddiwch Daflen Waith 2 ar dudalen 18 i gyfrifo'r ffigur i'w roi ym mlwch 2.3

### Buddiannau nad ydynt yn cael eu talu drwy'r gyflogres

Bydd angen i chi gynnwys rhai buddiannau nad ydych wedi'u cael drwy'r gyflogres, er enghraifft, car cwmni. Defnyddiwch Daflen Waith 2 ar dudalen 18 i gyfrifo'r buddiannau yr ydych wedi'u cael ac y mae angen i chi eu dangos ym mlwch 2.3.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/tax-credits-working-out-income

### Blwch 2.4 ar eich datganiad – Incwm o hunangyflogaeth

Os ydych yn hunangyflogedig, dylech ddefnyddio'r ffigur elw neu golled a ddatganwyd gennych ar eich Ffurflen Dreth ar gyfer 2023 i 2024, a nodi hwn ym mlwch 2.4. Peidiwch â chynnwys unrhyw elw trosiannol. Os nad ydych wedi llenwi'ch Ffurflen Dreth ar gyfer y cyfnod hwn, mae'n rhaid i chi amcangyfrif eich elw neu golled a:

- nodi'r ffigur elw neu £0.00 am golled ym mlwch 2.4 a rhoi tic yn y blwch 'amcangyfrif' wrth ei ymyl
- rhoi'r manylion hyn i ni erbyn 31 Gorffennaf 2024

Os gwnewch hyn, bydd angen i chi gysylltu â ni eto pan fyddwch yn gwybod eich incwm gwirioneddol. Mae'n rhaid i chi wneud hyn erbyn 31 Ionawr 2025. I gael gwybodaeth am elw trosiannol, ewch i www.gov.uk/guidance/changes-to-reporting-income-from-self-employment-and-partnerships

## Rhan 2 – Cyfanswm incwm arall

### Blwch 2.5 ar eich datganiad

Os oes gennych unrhyw incwm arall, er enghraifft, pob incwm o ddifidendau, llog ar gynilion, peth incwm rhentu, a Phensiwn y Wladwriaeth neu bensiwn galwedigaethol, bydd angen i chi gyfrifo'r swm gros (cyn didynnu treth) a gawsoch ar gyfer cyfnod y dyfarniad a ddangosir ar eich Adolygiad Blynyddol, a llai £300 o'r swm gros.

Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael, bydd yn rhaid i chi amcangyfrif eich incwm arall a:

- nodi'r ffigur incwm arall neu £0.00 (os, ar ôl didynnu'r £300, fe'ch gadewir â ffigur minws) ym mlwch 2.5, a rhoi tic yn y blwch 'amcangyfrif' wrth ei ymyl
- rhoi'r manylion hyn i ni erbyn 31 Gorffennaf 2024

Os gwnewch hyn, bydd angen i chi gysylltu â ni eto pan fyddwch yn gwybod eich incwm arall gwirioneddol. Mae'n rhaid i chi wneud hyn erbyn 31 Ionawr 2025.

Wrth lenwi blwch 2.5, peidiwch â chynnwys unrhyw daliadau cynhaliaeth, grantiau myfyriwr, bwrsarïau na benthyciadau.

**Gallwch ddefnyddio Taflen Waith 3 ar dudalen 19 i'ch helpu.**

### Didyniadau'r aelwyd

Gallwch wneud didyniadau oddi wrth gyfanswm incwm eich aelwyd ar gyfer unrhyw daliadau rydych chi neu'ch partner wedi'u gwneud yn ystod cyfnod y dyfarniad ar gyfer:

- cyfraniadau at gynllun pensiwn personol cofrestredig
- rhoddion i elusen drwy Rodd Cymorth (Gift Aid)
- cyfraniadau at gontract blwydd-daliadau ymddeol
- colledion masnachu a gafwyd ar gyfer cyfnod y dyfarniad

### Rhoddion Rhodd Cymorth, cyfraniadau pensiwn personol a chyfraniadau blwydd-daliadau ymddeol

Gallwch ddidynnu swm gros unrhyw daliadau rydych wedi'u gwneud ar ffurf rhoddion Rhodd Cymorth, cyfraniadau pensiwn personol neu gyfraniadau blwydd-daliadau ymddeol.

Caiff cyfraniadau blwydd-daliadau ymddeol eu talu fel symiau gros. Gan fod rhoddion Rhodd Cymorth a chyfraniadau pensiwn ymddeol yn cael eu talu ar ôl didynnu treth, bydd angen i chi gyfrifo eu symiau gros.

**Enghraifft**
Os ydych yn drethdalwr ar gyfradd o 20%, cyfanswm y Rhodd Cymorth a/neu gyfraniadau pensiwn personol a wnaed yn ystod cyfnod y dyfarniad = £370

Lluosi £370 â 100 ac yna'i rannu ag 80 = £462.50

Didynnwch y cyfanswm gros o'r blychau yn y drefn y maent i'w gweld ar eich Datganiad Blynyddol.

## Colledion masnachu

Os ydych yn hunangyflogedig, ac rydych wedi gwneud colled fasnachu, gallwch ddidynnu hyn oddi wrth:

- unrhyw incwm arall a allai fod gennych ar gyfer y flwyddyn honno
- mewn hawliad ar y cyd, unrhyw incwm arall sydd gennych chi neu'ch partner ar gyfer y flwyddyn honno

Rhaid didynnu unrhyw golledion masnachu, na chafwyd rhyddhad arnynt, ac sydd wedi'u cario ymlaen o flynyddoedd blaenorol, o'ch elw hunangyflogedig.

Ni ellir didynnu colledion o flynyddoedd blaenorol oddi wrth incwm arall yr aelwyd.

Defnyddiwch TC825 – Working Sheet for tax credits relief for Gift Aid donations, pension contributions and trading losses. Ewch i GOV.UK a chwilio am TC825, ac yna dilynwch Gamau 2 a 3 i gyfrifo cyfanswm eich colledion.

Os yw'r cyfanswm:

- yn llai na chyfanswm eich incwm, didynnwch y swm o'r blychau yn y drefn y maent i'w gweld ar eich Datganiad Blynyddol
- yn gyfartal â chyfanswm eich incwm, neu'n fwy na hynny, nodwch '0' ym mhob blwch yn Rhan 2 o'ch Datganiad Blynyddol

Os oes angen help arnoch i gyfrifo'ch colledion neu'ch rhyddhad, ffoniwch ein llinell gymorth.

## Ar ôl i chi wneud eich datganiad

Os ydych wedi adnewyddu ar-lein, byddwn yn anfon cadarnhad atoch ar unwaith fod eich adnewyddiad wedi dod i law. Os byddwch yn adnewyddu drwy'r post neu dros y ffôn a bod gennym eich rhif ffôn symudol diweddaraf, byddwn yn anfon cadarnhad atoch drwy neges destun. Byddwn yn ysgrifennu atoch, cyn pen 8 wythnos fel arfer, i gadarnhau'ch hawl.

**Defnyddiwch y taflenni hyn i'ch helpu i gyfrifo'ch incwm.**
**Peidiwch â'u hanfon atom – cadwch nhw ar gyfer eich cofnodion.**

# Taflen Waith 1: Cyfrifo'ch enillion fel cyflogai o bob swydd ar gyfer blwyddyn 6 Ebrill 2023 i 5 Ebrill 2024

Os gwnaethoch weithio y tu allan i'r DU, dylech ddangos eich enillion mewn punnoedd Prydeinig o hyd.

## Eich enillion

Cyfanswm y cyflog o'ch holl waith cyflogedig, gan gynnwys unrhyw gildyrnau ac arian rhodd, Tâl Salwch Statudol, Tâl Mamolaeth Statudol, Tâl Tadolaeth Statudol, Tâl Rhieni ar y Cyd, Tâl Rhieni mewn Profedigaeth a Tâl Mabwysiadau. Nodwch y swm trethadwy (cyn y didynnir treth ac Yswiriant Gwladol). Mae'r manylion hyn i'w gweld ar gyfer y flwyddyn ar bob un o'ch ffurflenni P60, P45 neu ar lythyr hysbysu oddi wrth eich cyflogwr. Os yw'ch incwm yn cynnwys buddiannau a delir drwy'r gyflogres, didynnwch y ffigur hwn oddi wrth gyfanswm eich cyflog cyn nodi swm yn y blwch. Dangosir buddiannau ar eich ffurflen P11D os cewch un.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

Enillion trethadwy o opsiynau gwarant neu gyfranddaliadau a gawsoch oherwydd eich swydd. Er enghraifft, cyfranddaliadau neu fondiau cwmni.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

Tâl streic a gawsoch gan eich undeb llafur yn ystod cyfnod y dyfarniad.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

Tâl am waith a wnaethoch yn y carchar neu ar remánd yn ystod cyfnod y dyfarniad.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

## Cyfanswm yr enillion

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

**Defnyddiwch y taflenni hyn i'ch helpu i gyfrifo'ch incwm.**
**Peidiwch â'u hanfon atom – cadwch nhw ar gyfer eich cofnodion.**

# Taflen Waith 1: Cyfrifo'ch enillion fel cyflogai o bob swydd ar gyfer blwyddyn 6 Ebrill 2023 i 5 Ebrill 2024 parhad

## Eich didyniadau

Treuliau sy'n gysylltiedig â gwaith yr ydych wedi'u talu ac nad yw'ch cyflogwr wedi'u had-dalu i chi yn ystod cyfnod y dyfarniad. Treuliau yw'r rhain y bu'n rhaid i chi eu talu wrth wneud eich swydd ac a oedd yn gysylltiedig â'ch swydd yn unig. Peidiwch â chynnwys treuliau yr aethoch iddynt wrth deithio rhwng eich cartref a'ch gweithle arferol.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

Taliadau y gellir didynnu tret oddi wrthynt a wnaed gennych ac nad ydynt wedi'u had-dalu. Er enghraifft, ffioedd i gyrff proffesiynol, ffioedd asiantaethau, yswiriant indemniad a thanysgrifiadau/ffioedd undeb a ganiateir. Am arweiniad pellach, ewch i GOV.UK a chwilio am Professional bodies approved for tax relief (list 3).

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

Treuliau cyfradd unffurf y cytunwyd arnynt gan eich cyflogwr neu sefydliad cynrychioliadol a CThEF, i gynnal a chadw neu adnewyddu offer neu ddillad arbennig sydd eu hangen arnoch i wneud eich gwaith.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol rhydd, taliadau i bensiynau rhanddeiliaid, neu gyfraniadau pensiwn i gynllun cofrestredig a delir allan o'ch incwm net a wnaed yn ystod cyfnod y dyfarniad. Nodwch y swm gros – ewch i GOV.UK a chwilio am TC825. Peidiwch â chynnwys unrhyw beth a dalwyd gennych i gynllun pensiwn galwedigaethol a delir allan o'ch incwm gros.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

Tâl Mamolaeth Statudol, Tâl Tadolaeth Statudol, Tâl Statudol ar y Cyd i Rieni, Tâl Statudol Rhieni mewn Profedigaeth a Thâl Mabwysiadu Statudol. Os oedd eich taliadau'n fwy na £100 yr wythnos, nodwch £100 yn y blwch ar gyfer pob wythnos. Er enghraifft, os cawsoch daliadau am 30 wythnos, nodwch £3,000. Os oedd eich taliadau'n llai na £100 yr wythnos, nodwch y swm a gawsoch. Er enghraifft, os cawsoch £80 am 30 wythnos, nodwch £2,400. Peidiwch â chynnwys Lwfans Mamolaeth.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

## Cyfanswm y didyniadau

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

**Tynnwch gyfanswm eich didyniadau oddi wrth gyfanswm eich enillion. Nodwch y swm hwn ym mlwch 2.2**

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

**Defnyddiwch y taflenni hyn i'ch helpu i gyfrifo'ch incwm.**
**Peidiwch â'u hanfon atom – cadwch nhw ar gyfer eich cofnodion.**

# Taflen Waith 2: Car cwmni a thanwydd, talebau trethadwy a buddiannau o bob swydd

Bydd eich cyflogwr yn rhoi manylion blynyddol y buddiannau a gewch ar ffurflen P11D. Copïwch symiau'r buddiannau perthnasol yr ydych wedi'u cael ac ewch ati i'w nodi yn y blychau isod. Os ydych chi neu'ch partner wedi cael mwy nag un cyflogwr, ychwanegwch y ffigurau at ei gilydd.

Nwyddau ac asedion a roddwyd i chi gan eich cyflogwr (er enghraifft, ceir ac eiddo) – dangosir y rhain yn adran A ffurflen P11D.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

Taliadau a wnaed gan eich cyflogwr ar eich rhan (er enghraifft, talu rhent neu filiau cyfleustodau) – dangosir y rhain yn adran B o'r ffurflen P11D, yn y blwch cyntaf wedi'i rifo'n 15.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

Talebau arian parod a rhai nad ydynt yn arian parod, a thocynnau credyd (er enghraifft, cerdyn credyd cwmni a ddefnyddiwyd i brynu eitemau ar gyfer defnydd personol) – dangosir y rhain yn adran o'r C ffurflen P11D (ychwanegwch yr holl flychau at ei gilydd). Peidiwch â chynnwys swm cyfwerth ag arian parod talebau gofal plant os cânt eu defnyddio i dalu am ofal plant cofrestredig neu gymeradwy.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

Lwfans milltiroedd – sicrhewch eich bod yn cynnwys taliadau am ddefnyddio'ch car eich hun. Nodwch y swm trethadwy a ddangosir yn adran E ffurflen P11D. Dylech hefyd gynnwys costau rhedeg a thaliadau teithwyr y mae'ch cyflogwr wedi talu amdanynt – a ddangosir yn adran E o'r ffurflen P11D, neu a gynhwysir yn adran N. Os nad yw'ch cyflogwr yn talu'ch costau milltiroedd, neu os yw'n talu ychydig o'r costau yn unig, ffoniwch ein llinell gymorth am gyngor pellach.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

Car cwmni – a ddangosir ym mlwch 9, adran F ffurflen P11D.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

Buddiant tanwydd car cwmni – a ddangosir ym mlwch 10 yn adran F o'r ffurflen P11D.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

Taliadau treuliau a dalwyd i chi neu ar eich rhan – dangosir y rhain yn adran I, J, M neu N o'r ffurflen P11D. Efallai y gallech leihau'r swm hwn drwy hawlio didyniad am dreuliau a ganiateir at ddibenion Treth Incwm penodol. Am gyngor pellach, ffoniwch ein llinell gymorth.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

## Cyfanswm – Nodwch y swm hwn ym mlwch 2.3

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

**Defnyddiwch y taflenni hyn i'ch helpu i gyfrifo'ch incwm.**
**Peidiwch â'u hanfon atom – cadwch nhw ar gyfer eich cofnodion.**

## Taflen Waith 3: Incwm arall

Incwm o gynilion a buddsoddiadau, gan gynnwys difidendau.
Nodwch y swm gros, ond peidiwch â chynnwys cynilion sy'n rhydd o dreth megis cyfrifon ISA.
Cofiwch gynnwys swm llawn unrhyw 'enillion digwyddiad trethadwy' o bolisi yswiriant bywyd.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

Pensiynau'r Wladwriaeth – peidiwch â chynnwys y bonws Nadolig na'r taliad tanwydd gaeaf.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

Pensiynau eraill y DU yr ydych yn eu cael, gan gynnwys pensiynau galwedigaethol neu flwydd-daliadau (ond nid pensiynau rhyfel sy'n rhydd o dreth). Defnyddiwch eich ffurflen P60 am fanylion eich pensiwn galwedigaethol. Ffoniwch ein llinell gymorth os yw'ch pensiwn yn cynnwys swm ychwanegol ar gyfer salwch neu anaf sy'n gysylltiedig â gwaith.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

Incwm o eiddo – cofiwch gynnwys yr holl incwm trethadwy o eiddo. Wrth gyfrifo'ch treuliau caniataol ar gyfer credydau treth, dylech ddidynnu 100% o'ch costau ariannol. Peidiwch â chynnwys incwm o'r cynllun Rhentu Ystafell os yw hwn o dan £7,500 neu £3,750 os ydych yn gydberchennog. Os gwnaeth eich eiddo rhent golled, mae taflen waith ar gael ar-lein i gyfrifo'ch colledion masnachu. Ewch i GOV.UK a chwilio am TC825.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

Incwm o ymddiriedolaethau, setliadau ac ystadau – cewch fanylion ar dystysgrif R185, a dylai'r ymddiriedolwyr neu'r gweinyddwyr fod wedi rhoi hon i chi.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

Incwm tramor – er enghraifft, incwm o fuddsoddiadau ac eiddo tramor. Nodwch y swm gros mewn punnoedd Prydeinig, hyd yn oed os cafodd ei dalu mewn arian cyfred arall. Os ydych yn cael pensiwn tramor, cofiwch ei gynnwys yma. Didynnwch unrhyw gostau banc neu gomisiwn a daloch wrth drosi arian tramor.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

Incwm tybiannol – mae hyn yn cynnwys pethau fel difidendau stoc, neu incwm y gallech fod wedi'i gael ond y gwnaethoch ddewis peidio â'i gael. Ffoniwch ein llinell gymorth os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am hyn.

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

**Defnyddiwch y taflenni hyn i'ch helpu i gyfrifo'ch incwm.**
**Peidiwch â'u hanfon atom – cadwch nhw ar gyfer eich cofnodion.**

## Taflen Waith 3: Incwm arall parhad

### Cyfanswm

| Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|

**Ychwanegwch y cyfansymiau at ei gilydd ar eich cyfer chi a'ch partner**

£

**Didynnwch £300 (os bydd hyn yn rhoi ffigur minws, nodwch 0)**

£

### Cyfanswm incwm arall

**Nodwch y swm hwn ym mlwch 2.5. Peidiwch â chynnwys ceiniogau**

£

## Sut i wneud eich datganiad ac adnewyddu'ch credydau treth

Mae'n gyflym ac yn hawdd wrth ddefnyddio ein ap – chwiliwch am HMRC yn eich siop apiau, neu ewch i www.gov.uk/rheoli-eich-credydau-treth

Gallwch adnewyddu ar-lein ar unrhyw adeg, hyd yn oed pan fo'r llinellau ffôn yn brysur.

### Neu, gallwch adnewyddu:

**Dros y ffôn**

- 0300 200 1900
- Relay UK (os na allwch glywed na siarad dros y ffôn) 18001 ac yna 0345 300 3900

I gael gwybod ein horiau agor, ewch i www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs/contact/welsh-language-helplines

**Drwy'r post – darllenir eich datganiad gan beiriant, felly mae'n bwysig eich bod yn:**

- defnyddio inc du
- ysgrifennu y tu mewn i'r blychau, gan ddefnyddio un blwch ar gyfer pob llythyren neu rif
- gadael unrhyw flychau nad ydynt yn berthnasol i chi yn wag – peidiwch ag ysgrifennu 'ddim yn berthnasol' na rhoi llinell drwyddynt
- rhoi llinell drwy'ch cofnod os gwnewch gamgymeriad, ac ysgrifennu'r wybodaeth gywir o dan y blwch
- darllen pob cwestiwn yn ofalus

Anfonwch y ffurflen yn ôl yn yr amlen a ddarparwyd. Bydd angen stamp. Sicrhewch eich bod yn talu'r swm postio cywir. Peidiwch ag anfon unrhyw beth gyda'r ffurflen, oni bai ein bod wedi gofyn i chi wneud hynny.

Ffoniwch 0300 200 1900 i gael fersiynau Cymraeg o ffurflenni a chanllawiau.

### Rhagor o wybodaeth

Rydym yn gwirio dyfarniadau credydau treth yn rheolaidd er mwyn sicrhau eich bod yn cael y swm cywir ac er mwyn atal twyll, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r wybodaeth gywir.

Efallai y byddwn yn addasu'ch taliadau os gwelwn eich bod wedi cael gormod, neu heb gael digon, o gredydau treth. Byddwn yn cysylltu â chi os bydd angen i ni wneud hyn.

### Sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth

Mae Cyllid a Thollau EF yn Rheolwr Data o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys at ddibenion asesu a chasglu trethi a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny. Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y rhoddwn wybodaeth iddynt.

Os gwnawn hynny, bydd yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu yn unig, a hynny er mwyn:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus

Efallai y byddwn yn cymharu gwybodaeth a gawn amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gallai hynny gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych chi, yn ogystal â chan eraill, megis adrannau neu asiantaethau eraill y llywodraeth, ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i Gyllid a Thollau EF, oni bai bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny.

### Eich hawliau a'ch rhwymedigaethau

Mae 'Siarter CThEF' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn, sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar yr hawl i apelio.

Gellir canfod unrhyw ddiwygiadau dilynol i'r nodiadau hyn yn www.gov.uk
Gwasanaethau Digidol CThEF  Ebrill 2024 © Hawlfraint y Goron 2024
CThEF 04/24  7003421